

**Cyngor Cymuned Llanllyfni**  
**Cofnodion cyfarfod misol, Nos Fawrth y 10ed o Ebrill 2012.**

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Iwan Lloyd Williams (cadair), Elwyn Jones-Griffith, Ifan Glyn Jones, Barry Bracegirdle, Menna Williams – Penygroes; Harry Wyn Owen, D Martin Williams, Dafydd Glyn Jones – Talysarn; T Les Jones – Nantlle; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni.

Gwahoddwyd Aled Sion, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd i'r cyfarfod. Cafwyd adroddiad ar gynlluniau rheoli traffic yr ardal adeg Eisteddfod yr Urdd, ac hefyd gwybodaeth gyffredinol am y gwaith ar y maes, a'r maes carafannau. Roedd yr Eisteddfod yn barod i dderbyn pamffled A4 gan y Cyngor Cymuned, i'w rhoi yn y pecynnau croeso, i hyrwyddo busnesau lleol. Gofynwyd i'r Cyngorydd Dafydd Glyn Owen gydlynnu.

Fel ymateb i gwyn y Cyngor am or-yrro, mae Cyngor Gwynedd wedi peintio ARAF ar Ion Allt Goch i geisio arafu cyflymder traffic.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

\* Tyddyn Difyr, Clogwyn Melyn, Penygroes, estyniad a modurdy. Y penderfyniad oedd cymeradwyo.

\* Co-op, Penygroes – gosod 3 uned cywasgydd aer. Cymeradwyo.

\* Eryri Wen, Ffordd Llwydu – estyniad ochr. Cymeradwyo.

\* 2 Bryn Derwen Terrace, Talysarn – dymchwel estyniad cefn ac adeiladu estyniad deulawr newydd. Cymeradwyo.

\* Safle gwaredu Cilgwyn, Carmel – adeiladu lagwn cydbwysu dwr wyneb wedi leinio a chroen tecstil gyda seilwaith cysylltiedig gan gynnwys ffos gerrig a phibell arllwysfa i gysylltu mewn i'r pibwaith presennol cyn gollwng i gwrs dwr. Trafodwyd y cais – derbyn.

\*Co-op, Penygroes – gosod peiriant ATM. Roedd pryder am y problemau traffic sydd yn bodoli y tu allan i'r siop, a bod lleoliad y peiriant arian yn ychwanegu at hyn. Roedd y Cyngor yn gresynu bod y cais yn un ol-weithredol, a bod y peiriant eisioes yn ei le.

### **Gohebiaeth - Cyngor Gwynedd**

Mae'r Cyngor yn parhau i fod mewn trafodaeth a Chyngor Gwynedd ynglyn a symud y fainc sydd yn y cae ym mhen draw Maes y Mor oddi yno. Byddwn yn gofyn am y ddwy fainc arall yn ol yn y cae swings.

Derbyniwyd ymateb i'n cwyn am faw cwn yn y Dyffryn. Roedd Cyngor Gwynedd wedi bod yn monitro'r sefyllfa, a derbyniodd un perchennog ddirwy. Byddwn yn gyrru llythyr o ddiolch am eu gwaith.

Cafwyd copi o lythyr yn rhoi penderfyniad i'r cais i adolygu trwydded eiddo Victoria Hotel, Penygroes. Mae'r tafarndy wedi bod ar gcau ers tua 3 mis. Roedd penderfyniad yr Awdurdod o blaid yr heddlu.

### **Adroddiadau Pentrefi/Cystadleuaeth Arddio**

**Talysarn** Cafwyd adroddiad bod yr heddlu wedi gorfod glanhau y lloches bws yn Nhalysarn, wedi iddo gael ei dargedu gan fandaliaid – nid oedd y Cyngor yn cytuno mai lle'r heddweision yw glanhau llanast troseddwy. Roedd poteli wedi eu gadael ar y cae pel droed, ond wedi eu clirio oddi ar y safle bellach.

**Nantlle** Roedd y Cyngor yn falch o dderbyn gohebiaeth yn hysbysu bod y ffordd am gael ei ail-wynebu.

**Llanllyfni** Mae parcio ar y palmentydd ac ar linellau dwbl yn parhau i fod yn broblem. Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd ail edrych ar y sefyllfa ac adrodd yn ol. Ma hon yn broblem sydd yn digwydd dros nos ac yn ystod y dydd.

**Penygroes** Mae parcio tu allan i'r Co-op yn parhau; Byddwn yn gofyn i'r Cyngor Sir pa hawliau sydd yn berthnasol i unigolion sy'n marchnata ar ochr strydoedd, mewn perthynas a'r fan sglodion sydd yn ymweld a'r pentref; Byddwn yn mynd ar ol y mater fod ffurflenni amlogfa yn uniaith Saesneg.

**Cystadleuaeth arddio** wedi peth trafodaeth, a gya gofid, penderfynwyd diddymu'r gystadleuaeth yma oherwydd diffyg diddordeb gyson y bobl i gystadlu. Mae'r Cyngor yn siomedig iawn i ddod a'r gystadleuaeth hon i ben. Hoffai'r Cyngor ddiolch yn gawr iawn i'r rhai a fu'n cystadlu'n selog, ac hefyd i Ganolfan Arddio Frongoch am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

**Mynwentydd**

Wedi derbyn cwynion, daeth y Cyngor yn ymwybodol bod giatiau'r mynwentydd wedi cau ar Sul y Blodau - eithriad oedd hyn, a roedd y Cyngor yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleuster.